

Oedfaon a Chyfarfodydd y Fro dros yr haf

Dydd Sul, Gorff. 31	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00. • Bydd Andras Iago yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. • Bydd y Parch. John Watkin yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. • Bydd Mrs Nia Royles yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00. • Bydd Cyfarfod Gweddi yn Saron a Pheniel am 10.00.
Dydd Sul, Awst 7	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa undebol yng Nghapel Bethania, Llansannan am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. • Bydd y Parch. Bernant Hughes yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 2.00
Dydd Sul, Awst 14	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00. • Bydd y Parch T. Evans Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00. • Bydd Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00. • Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Saron am 2.00.
Dydd Sul, Awst 21	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Parch. Robert O. Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, ym Mheniel am 2.00, ac yng Nghefn Meiriadog am 6.00.
Dydd Sul, Awst 28	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Parch. Ioan Davies yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. • Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00. • Bydd Oedfa Thema yn Henllan am 10.00.
Dydd Sadwrn, Medi 3	<ul style="list-style-type: none"> • Encil yng Nghapel Saron o 10.00 – 4.00 o’r gloch dan nawdd Adran Bywyd a Thystiolaeth Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yng nghwmni’r Parch. Ddr Elfed ap Nefydd Roberts. Croeso i holl aelodau’r eglwysi – dewch i fwynhau diwrnod o fyfyrddod a chymdeithasu. Er mwyn hwyluso trefniadau, gofynnir am enwau neu rifau y bobl sy’n bwriadu dod i’r Encil erbyn Awst 20fed, os gwelwch yn dda, i naill ai Gwenfyl Jones (01745 890417 / gwenfyljones@btinternet.com) neu Dilys Hughes (01745 730272 / hyweldilys@hotmail.co.uk). Wrth gwrs, bydd croeso i unrhyw un arall ddod ar y diwrnod.
Dydd Sul, Medi 4	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr Ysgolion Sul yn ail-gychwyn heddiw. • Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00. • Bydd gwasanaeth wedi ei drefnu yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. • Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. • Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i’r daith yn Henllan am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. • Bydd Oedfa’r Fro yn Llansannan am 6.00.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17^{eg} Gorffennaf 2011

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi’r 4ydd, ond os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol, plis cysylltwch fel arfer â Mair neu Aneurin.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da iawn i chwi eto a chroeso i oedfaon y Sul. Un o’r pethau y byddaf yn edrych ymlaen ato heddiw ydi cael amser i ymdawelu dipyn a cheisio Duw hefo chi. ’Does yr un ohonom yn deilwng i ddod ato ond ymateb i’w wahoddiad yr ydym, gwahoddiad i bawb a chroeso yn aros amdanom. Croeso fel y cafodd y mab afradlon gan ei dad. Croeso heb ddal dim yn ôl, llawenydd a chariad fel na ddaru ni ei brofi o’r blaen – dyna obeithiwn amdano heddiw a dyna ddymunwn i’n gilydd.

Wel, cefais fy nghyfweliad cyntaf hefo Gwilym Owen! Rhyw fachu ar y cyfle ydoedd – gweld yr hysbyseb am y swydd o Gynorthwy-ydd Gweindogaethol a phenderfynu ffonio i holi beth oedd yn mynd ymlaen yn y Fro. Cefais innau gyfle i ddweud yn dda am waith yr Arglwydd yn ein plith a gobeithio y bydd clywed am hyn wedi bod yn anogaeth i ardaloedd eraill.

Mae’n siŵr fy mod yn disgwyl amser caletach gan Gwilym Owen hefyd! Mae ganddo enw fel holwr didrugaredd! Mae sawl un wedi cael amser caled ganddo dros y blynyddoedd. Diolch amdano weithiau – mae angen mynd i wraidd ambell i fater! Cael mwy o dderbyniad nag yr oeddwn wedi ei ddisgwyl – dyna brofiad rhyfedd! Cael fy synnu fod rhywun wedi bod yn glên pan oeddwn wedi disgwyl cael gwag a chaledwch calon.

Erbyn meddwl, dyma oedd profiad y mab afradlon hefyd. Disgwyl gwag a chondemniad ei dad a wnai wrth fentro’n ôl. Ond yr hyn a gafodd oedd breichiau agored, cusan o groeso a gwledd i ddathlu ei fod wedi dod yn ôl. Bron na fyddech yn taeru ei fod wedi dod yn ôl o farw yn fyw yn llygaid ei dad! Disgwyl gwag, ond cael modrwy’r etifeddiaeth! Ydi hyn yn canu cloch yn ein profiad ni tybed?

Mae emyn yn dod i’r meddwl rwan wrth i mi sgwennu – “Rwy’n haeddu gwag y nef, ond hedd gyhoedda hi; Bu’r Iesu farw dros fy mai ar groesbren Calfari.”

Cael Duw yn gwenu arnom – dyna ichi brofiad gwell na chael Gwilym Owen yn glên hefo chi hyd yn oed!

Daeth profedigaeth a gofid eto i ran rhai ohonoch yr wythnos yma. Gobeithio y byddwch yn cael bendith o feddwl bod llawer gweddi yn codi o’r ofalaeth drosoch. Mae cysuron tragwyddol yn y croeso sydd gan Dduw ar gyfer pob un sy’n ei geisio. Gobeithio y cewch chwithau Dduw yn agos heddiw yn ei drugaredd a’i gariad.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Iau Y sesiwn olaf o hyfforddiant ar y thema **Gofal Cristnogol** dan arweiniad y Parch Euros Wyn Jones yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. 'Agweddau Ymarferol' fydd thema'r noson heno. Croeso i bawb.

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, byddwn, trwy bleidlais ddirgel, yn cymryd llais yr eglwys ynglŷn a dymuniad Elinor Owen i gyflwyno ei hun fel ymgeisydd ar gyfer y weinidogaeth. Cynhelir Ysgol i'r oedolion am 11.10.

Sul nesaf Bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf Bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg gydag oedfa'r bore yn Saron (SYLWER AR Y NEWID).

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

Sul yma Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID LLEOLIAD). Bydd hon yn oedfa fedydd pryd y bydd Mared Ann, merch fach Gwenan a Jonathon yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain ac yn Llanefydd am 11.15.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau ar gyfer **yr wythnos yn cychwyn Medi'r 4ydd** i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i

Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

erbyn 9.00 nos Fercher, **Awst 31ain fan bellaf.**

Cofion

- Daeth y newydd trist am farwolaeth Mr Thomas Evans, Llanfair (Cilowen, gynt) i'n clyw ddechrau'r wythnos, a hynny ychydig ddyddiau yn unig wedi profedigaeth arall yn y teulu. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Edna a'r teulu oll gan ddeisyf y bydd yr Arglwydd yn gwmni ac yn gysur iddynt yn eu hangen.
- Cofiw'n hefyd am Gwenfyl Jones (Llansannan), Heulwen Roberts (Henllan) a Carol Williams (Tanyfron), y tair wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos, ac am Barbara Williams a Menna Streeter (Henllan) sy'n parhau'n yr Inffirmari ar hyn o bryd. Fe fydd Menna yn symud i Gartref Maes Elwy, Trefnant yn y dyddiau nesaf a'n gweddi yw y bydd yn setlo yno'n fuan iawn. Diolchwn am bob gofal a gafodd adref ac yn yr ysbyty, a chofiw'n yn ein gweddïau hefyd am ei gŵr, Walter John Streeter. Parhawn i gofio am eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn, gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Ysgolion Sul Groes a Henllan ar ddod yn ail yn y twrnamnt pêl-droed i Fl. 2, 3 a 4 yng Ngherrigydrudion.